# Media Cymru x UKRI

Cronfa Uwchraddio Media Cymru – Rownd 2

Gall sefydliadau sydd wedi'u cofrestru yn y DU ac wedi'u lleoli yng Nghymru wneud cais am rhwng £100,000 a £250,000 o arian grant. Rhaid i’r sefydliadau ddatblygu cynhyrchion, gwasanaethau neu brofiadau arloesol ar gyfer sector y cyfryngau.

- **Cystadleuaeth yn agor:** Dydd Llun 7 Hydref 2024
- **Cystadleuaeth yn dod i ben:** Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2024, 11am

## Table of Contents


Crynodeb .... 2
Cymhwysedd .... 3
Cwmpas .... 9
Dyddiadau .... 12
Sut mae gwneud cais .... 12
Gwybodaeth Ategol .... 21

media cymru

# Crynodeb

## Disgrifiad

Bydd Innovate UK, sy'n rhan o UK Research and Innovation, yn cyflwyno'r gystadleuaeth hon ar ran Media Cymru, consortiwm o 22 o sefydliadau partner sy'n cael eu harwain gan Brifysgol Caerdydd. Ariennir y gystadleuaeth gan Gronfa Strength in Places UKRI i fuddsoddi hyd at £700,000.

Rhaglen pum mlynedd yw Media Cymru, sy'n awyddus i droi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ganolfan fyd-eang ar gyfer cynhyrchu ac arloesi yn y cyfryngau, gan ganolbwyntio ar dwf economaidd gwyrdd a theg.

Nod y gystadleuaeth hon yw darparu cynhyrchion, gwasanaethau a phrofiadau arloesol i fynd i'r afael â heriau sydd i'w gweld yn niwydiant y cyfryngau yng Nghymru, a hynny drwy gyllid ymchwil a datblygu.

Media Cymru: Bydd Rownd 2 y Gronfa Uwchraddio yn buddsoddi mewn cwmnïau sydd gystal â chystadleuwyr byd-eang o ran maint eu sgiliau a'u huchelgais i arloesi. Rydym yn chwilio am gynhyrchion, gwasanaethau a phrofiadau sydd wedi cael eu sbarduno gan arloesedd, gyda'r potensial ar gyfer twf yn sector y cyfryngau.

Rhaid i'ch cynnig ddangos y potensial i gael effaith gadarnhaol ar economi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Wrth wneud cais i'r gystadleuaeth hon, rydych chi'n ymgymryd â phroses gystadleuol. Mae gan y gystadleuaeth hon derfyn ariannu, felly efallai na fyddwn yn gallu ariannu'r holl brosiectau a gynigir. Efallai na fyddwn yn gallu ariannu eich prosiect, hyd yn oed os yw'n sgorio'n uchel.

Bydd y gystadleuaeth hon yn cau am 11am (amser y DU) ar y dyddiad cau a nodir yn y briff cystadleuaeth hwn gan Innovate UK. Ni allwn warantu y bydd safleoedd eraill y llywodraeth neu drydydd partïon bob amser yn dangos y wybodaeth gywir am y gystadleuaeth.

## Math o gyllid

Grant

media cymru

### Maint y prosiect

Er nad oes uchafswm ar gyfer cyfanswm y costau cymwys, rhaid i gyfanswm yr arian y mae eich prosiect yn gofyn amdano fel rhan o'r grant fod rhwng £100,000 a £250,000.

### Hygyrchedd a Chynhwysiant

Rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir ac rydym wedi ymrwymo i wneud ein proses ymgeisio yn hwylus i bawb. Mae hyn yn cynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl sydd ag anabledd neu gyflwr hirdymor ac sy'n wynebu rhwystrau sy'n berthnasol i ni.

Gallwch gysylltu â ni unrhyw bryd i ofyn am arweiniad.

Rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â ni o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn dyddiad cau'r gystadleuaeth hon er mwyn i ni allu darparu'r cymorth mwyaf addas. Efallai mai dim ond ychydig o gefnogaeth y gallwn ei chynnig os byddwch yn cysylltu â ni'n agos at ddyddiad cau'r gystadleuaeth.

Gallwch gysylltu ag Innovate UK dros e-bost neu drwy ffonio 0300 321 4357. Mae ein llinellau ffôn ar agor rhwng 9am a 12pm a rhwng 2pm a 5pm yn y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc).

## Cymhwysedd

### Pwy sy'n cael gwneud cais

#### Eich prosiect

Mae'n ofynnol:

- bod yr arian grant y gofynnir amdano rhwng £100,000 a £250,000
- bod y prosiect yn para hyd at 12 mis
- bod y prosiect yn canolbwyntio'n bennaf ar sector y cyfryngau
- bod y prosiect yn dangos potensial sylweddol o fudd economaidd i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd
- bod y prosiect yn bwriadu manteisio ar y canlyniadau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd
- nad yw'r prosiect yn dechrau cyn 1 Ebrill 2025

- bod y prosiect yn dod i ben erbyn 30 Ebrill 2026

Rhaid i brosiect ddechrau ar y cyntaf o'r mis bob amser. Ni ddylech ddechrau eich prosiect nes bod eich Llythyr Cynnig Grant wedi cael ei gymeradwyo gan Innovate UK. Mae'n bosibl y bydd unrhyw oedi wrth sefydlu eich prosiect yn golygu y bydd angen i ni ohirio dyddiad dechrau eich prosiect.

Dim ond costau prosiect cymwys y dylech eu cynnwys yn eich cais.
Os yw dyddiad dechrau eich prosiect y tu allan i'n meini prawf cymhwysedd, rhaid i chi anfon cyfiawnhad dros e-bost i support@iuk.ukri.org o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn i'r gystadleuaeth ddod i ben. Byddwn yn penderfynu a fyddwn yn cymeradwyo eich cais ai peidio.

Os nad ydych chi wedi gofyn i ni gymeradwyo eich cais neu os nad ydym wedi gwneud hynny, ni fyddwch yn gymwys. Ni fydd eich cais yn cael ei anfon i gael ei asesu.

## Sefydliad arweiniol

I arwain prosiect, rhaid i'ch sefydliad fodloni'r tri maen prawf hyn:

1. Rhaid iddo fod yn fusnes cofrestredig yn y DU gyda chyfeiriad busnes yng Nghymru
2. Rhaid iddo fod wedi'i leoli ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd neu'n cydweithio ag o leiaf un busnes cofrestredig yn y DU o unrhyw faint, sefydliad academaidd, elusen, cwmni nid-er-elw, sefydliad yn y sector cyhoeddus neu sefydliad ymchwil a thechnoleg ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd
3. Rhaid ei fod yn bwriadu manteisio ar y canlyniadau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd

Anogir cydweithio yn y sectorau canlynol a gyda busnesau micro, bach neu ganolig yn y gadwyn gyflenwi:

- ffilm, teledu a'r cyfryngau
- gemau
- y byd academaidd
- technoleg, er enghraifft, TG, meddalwedd, electroneg a gwasanaethau cyfrifiadurol

Mae rhagor o wybodaeth am y gwahanol fathau o sefydliadau ar gael yn ein Rheolau ariannu.

Ni chaiff sefydliadau academaidd arwain na gweithio ar eu pen eu hunain.

## Tîm y prosiect

I gydweithio â'r arweinydd, rhaid i'ch sefydliad fod yn un o'r canlynol sydd wedi'i gofrestru yn y DU:

- busnes o unrhyw faint
- sefydliad academaidd
- elusen
- cwmni nid-er-elw
- sefydliad yn y sector cyhoeddus
- sefydliad ymchwil a thechnoleg

Rhaid i bob sefydliad partner gael ei wahodd i'r Gwasanaeth Ariannu Arloesedd (IFS) gan yr arweinydd er mwyn cydweithio ar brosiect. Ar ôl i bartneriaid dderbyn y gwahoddiad, gofynnir iddynt fewngofnodi neu greu cyfrif IFS.

Byddant yn gyfrifol am nodi eu costau eu hunain fel rhan o'r prosiect yn y cais.

Er mwyn i'r cydweithio fod yn gymwys, rhaid i'r sefydliad arweiniol ac o leiaf un sefydliad arall wneud cais am arian wrth roi eu costau yn y cais.

## Partneriaid sydd ddim yn cael eu hariannu

Gall eich prosiect gynnwys partneriaid sydd ddim yn cael unrhyw arian gan y gystadleuaeth hon, er enghraifft, busnesau o'r tu allan i'r DU. Bydd eu costau'n cyfrif tuag at gyfanswm costau'r prosiect.

Gellir gwahodd sefydliadau rhyngwladol i ymuno â phrosiectau fel partneriaid sydd ddim yn cael eu hariannu. Bydd angen iddynt ychwanegu eu costau at yr IFS ond rhaid iddynt ychwanegu sero ar gyfer y costau sy'n cael eu hawlio.

Rhaid i'r partneriaid rhyngwladol gael eu henwi a'u cofrestru fel partner sydd ddim wedi cofrestru â Je-S.

## Isgontractwyr

Caniateir isgontractwyr yn y gystadleuaeth hon.

Gall isgontractwyr ddod o unrhyw le yn y DU a rhaid i chi eu dewis drwy eich proses gaffael arferol.

Gallwch ddefnyddio isgontractwyr o dramor ond rhaid i chi gyflwyno'r achos yn eich cais ynghylch pam na allech chi ddefnyddio cyflenwyr o'r DU.

Rhaid i chi ddarparu sail resymegol fanwl, tystiolaeth o'r contractwyr posibl yn y DU y gwnaethoch gysylltu â nhw, a'r rhesymau pam nad oeddent yn gallu gweithio gyda chi. Ni fyddwn yn derbyn cost ratach fel rheswm digonol dros ddefnyddio is-gontractwr o dramor.

Rhaid cyfiawnhau holl gostau'r is-gontractwr a rhaid iddynt fod yn briodol i gyfanswm costau'r prosiect.

## Nifer y ceisiadau

Dim ond ar un cais y gall busnes arwain, ond gellir ei gynnwys fel cydweithredwr mewn dau gais arall.

Os nad yw busnes yn arwain unrhyw gais, gall gydweithio mewn unrhyw nifer o geisiadau.

Gall sefydliad academaidd, elusen, cwmni nid-er-elw, sefydliad yn y sector cyhoeddus neu RTO gydweithio ar unrhyw nifer o geisiadau.

## Sancsiynau

Ni fydd y gystadleuaeth hon yn eich ariannu, nac yn darparu unrhyw fudd ariannol i unrhyw unigolyn nac endid sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chi, a fyddai'n amlygu Innovate UK neu unrhyw fuddiolwr uniongyrchol neu anuniongyrchol o arian gan Innovate UK i Sancsiynau'r DU. Er enghraifft, drwy unrhyw weithgarwch caffael, masnachol, datblygu busnes neu gadwyn gyflenwi gydag unrhyw endid fel arweinydd, partner neu is-gontractwr sy'n gysylltiedig â'r gwledydd hyn, a'r gweinyddiaethau a'r grwpiau terfysgaeth.

## Defnyddio anifeiliaid mewn ymchwil ac arloesedd

Mae Innovate UK yn cefnogi'r gwaith o sicrhau a diogelu safonau lles ar gyfer anifeiliaid a ddefnyddir mewn ymchwil ac arloesi – yn unol ag arferion gorau a chanllawiau cyfredol – ac yn disgwyl hynny gan ymgeiswyr.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr holl waith arfaethedig mewn prosiectau, yn y DU ac yn rhyngwladol, yn cydymffurfio â chanllawiau UKRI ar ddefnyddio anifeiliaid mewn ymchwil ac arloesedd.

Gofynnir i unrhyw brosiectau a ddewisir i'w hariannu sy'n cynnwys anifeiliaid ddarparu gwybodaeth ychwanegol am les ac ystyriaethau moesegol, yn ogystal â chydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol fel rhan o'r broses o gychwyn y prosiect. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu cyn i ddyfarniad gael ei wneud.

## Ceisiadau blaenorol

Gallwch ddefnyddio cais a gyflwynwyd yn flaenorol i wneud cais ar gyfer y gystadleuaeth hon.

Os ydych chi wedi cyflwyno cais o'r blaen a oedd wedi cyrraedd ein cam asesu, gallwch ailymgeisio gyda'r un cynnig.

Os oes mân wahaniaethau i'r cynnig, ond ein bod o'r farn 'nad yw'n wahanol yn ei hanfod', mae'r un rheol yn berthnasol.

Ni fyddwn yn dyfarnu cyllid i chi:

- os na lwyddoch chi i wneud yn fawr o brosiect a ariannwyd yn flaenorol
- os yw adroddiad cyfrifydd annibynnol yn hwyr gennych
- os na wnaethoch chi gydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant

## Rheoli cymorthdaliadau (a chymorth gwladwriaethol lle bo hynny'n berthnasol)

Mae'r gystadleuaeth hon yn darparu arian i fentrau sy'n defnyddio'r Cynllun Cymhorthdal Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.

Gellir gweld y Cynllun hwnnw ar y gronfa ddata cymorthdaliadau yma: SC10780.

Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022. Mae rhagor o wybodaeth am ofynion y Cymhorthdal ar gael yn Neddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 (legislation.gov.uk).

Nid yw Innovate UK yn gallu rhoi dyfarniadau i sefydliadau yr ystyrir eu bod mewn trafferthion ariannol. Byddwn yn cynnal profion cymhwysedd a hyfywedd ariannol i gadarnhau nad yw sefydliadau mewn trafferthion ariannol ar ôl y cam ymgeisio.

Dim ond mewn ychydig o amgylchiadau y mae rheolau Cymorth Gwladwriaethol yr UE yn berthnasol erbyn hyn. Edrychwch ar Fframwaith Windsor i weld a yw'r rheolau hyn yn berthnasol i'ch sefydliad chi.

## Rhagor o wybodaeth

Os nad ydych chi'n siŵr beth yw eich rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 neu'r rheolau Cymorth Gwladwriaethol, dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol. Ni allwn roi cyngor ar rwymedigaethau cyfreithiol na chymhwysedd unigol.

Rhaid i chi bob amser sicrhau bod y cyllid a ddyfernir i chi yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth Rheoli Cymorthdaliadau gyfredol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig.

Nod hyn yw rheoleiddio unrhyw fantais gan gorff sector cyhoeddus sy'n ystumio cystadleuaeth, neu'n bygwth gwneud hynny, yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw wlad neu wledydd eraill.

Mae'r dyfarniad hwn yn cael ei ystyried yn Gymhorthdal sydd ddim yn rhan o'ch Cymorth Ariannol Lleiaf neu'ch lwfans De Minimis.

## Cyllid

Mae hyd at £700,000 wedi cael ei ddyrannu i ariannu prosiectau arloesi yn y gystadleuaeth hon. Bydd yr arian yn cael ei roi ar ffurf grant.

Os yw gwaith eich sefydliad ar y prosiect yn fasnachol neu'n economaidd, ni chaiff eich cais am arian fod yn fwy na'r terfynau isod. Mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw eich sefydliad fel arfer yn gweithredu'n aneconomaidd ond y bydd yn ymgymryd â gweithgarwch masnachol neu economaidd at ddibenion y prosiect hwn.

Rhaid i'r cydbwysedd rhwng cyfanswm costau eich prosiect a swm y grant a ddyfernir gael ei ariannu gan y sefydliadau sy'n derbyn y grant.

O ran y Cynllun Cymhorthdal Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi – Categori 2, Prosiectau Ymchwil Ddiwydiannol, gallwch gael arian ar gyfer costau cymwys eich prosiect, sef:

- hyd at 70% os ydych chi'n sefydliad micro neu'n sefydliad bach
- hyd at 60% os ydych chi'n sefydliad canolig ei faint

- hyd at 50% os ydych chi'n sefydliad mawr

O ran y Cynllun Cymhorthdal Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi – Categori 2, Prosiectau datblygu arbrofol sy'n nes at y farchnad, gallech gael cyllid ar gyfer costau cymwys eich prosiect, sef:

- hyd at 45% os ydych chi'n sefydliad micro neu'n sefydliad bach
- hyd at 35% os ydych chi'n sefydliad canolig ei faint
- hyd at 25% os ydych chi'n sefydliad mawr

I gael rhagor o wybodaeth am faint cwmnïau, edrychwch ar ganllawiau cyfrifon y cwmni.

Os ydych yn gwneud cais am ddyfarniad a ariennir dan Reoliadau Cymorth Gwladol, nodir y diffiniadau yn Argymhelliad y Comisiwn Ewropeaidd dyddiedig 6 Mai 2003.

### Cymryd rhan mewn ymchwil

Gall y sefydliadau ymchwil sy'n ymgymryd â gweithgarwch aneconomaidd fel rhan o'r prosiect rannu hyd at 30% o gyfanswm costau cymwys y prosiect. Os yw eich consortiwm yn cynnwys mwy nag un sefydliad ymchwil sy'n ymgymryd â gweithgarwch aneconomaidd, bydd yr uchafswm hwn yn cael ei rannu rhyngddynt. O'r 30% hwnnw, gallech gael cyllid ar gyfer costau cymwys eich prosiect o hyd at:

- 80% o'r costau economaidd llawn os ydych chi'n sefydliad cofrestredig Je-S, er enghraifft, sefydliad academaidd
- 100% o gostau cymwys eich prosiect os ydych chi'n sefydliad ymchwil a thechnoleg, yn elusen, yn gwmni nid-er-elw neu'n sefydliad yn y sector cyhoeddus

## Cwmpas

### Eich cynnig

Nod y gystadleuaeth hon yw darparu cynhyrchion, gwasanaethau a phrofiadau arloesol i fynd i'r afael â heriau sydd i'w gweld yn niwydiant y cyfryngau yng Nghymru, a hynny drwy gyllid ymchwil a datblygu.

Mae'n ofynnol bod eich prosiect:

- yn anelu at ddarparu atebion sydd â thystiolaeth o ddichonoldeb ac sy'n mynd i'r afael â heriau neu gyfleoedd a nodwyd
- yn dangos potensial realistig i sicrhau twf economaidd
- yn syniad sy'n barod i gael ei fasnacheiddio'n gyflym ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau
- yn rhannu gwybodaeth ac allbynnau gyda Media Cymru
- yn cyd-fynd ag o leiaf un o bileri strategol Media Cymru

Dyma bileri strategol rhaglen Media Cymru:

- Gwyrdd – lleihau effaith amgylcheddol y sector
- Teg – creu sector teg, cyfartal ac amrywiol
- Byd-eang – cynyddu cydweithrediadau rhyngwladol
- Twf – sbarduno twf a chynhyrchiant drwy ymchwil, datblygu ac arloesi

## Dull gweithredu sy'n seiliedig ar bortffolio

Rydym yn awyddus i ariannu amrywiaeth o brosiectau – gwahanol dechnolegau, marchnadoedd, aeddfedrwydd technolegol, lleoliadau a chategorïau ymchwil. Rydym yn galw hyn yn ddull gweithredu sy'n seiliedig ar bortffolio.

Rydym yn cadw'r hawl i flaenoriaethu prosiectau sydd:

- yn fyrrach o ran hyd
- yn cynnwys mwy o weithgarwch arloesi sy'n digwydd yng nghlwstwr arloesedd cyfryngau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- yn dangos y cysylltiad cryfaf â phileri strategol rhaglen Media Cymru
- yn dangos dull arloesol o ddatblygu cynhyrchion, gwasanaethau a phrofiadau newydd yn y sector

Yn dilyn asesiad Innovate UK, bydd pob cais a asesir yn cael ei ystyried gan banel o gynghorwyr annibynnol. Bydd y panel yn cael ei gynnull gan Media Cymru ac yn cael ei gadeirio'n annibynnol.

Bydd y panel yn adolygu'r ceisiadau yn unol â meini prawf y portffolio ac yn argymell i Media Cymru pa brosiectau fyddai'n ffurfio portffolio cytbwys ar draws pedwar piler strategol y rhaglen (gweler isod). Bydd yr argymhelliad hwnnw'n sail i benderfyniad terfynol Media Cymru ar ddyfarniadau ariannol.

## Themâu penodol

Gall eich prosiect ganolbwyntio ar un neu fwy o'r canlynol:

- fformatau cyfryngau newydd a datblygu cynnwys arloesol
- cynhyrchu cyfryngau datblygedig, gan gynnwys cydgyfeirio cynhyrchu rhithwir a chynhyrchu traddodiadol
- modelau busnes a phrosesau cynhyrchu cyfryngau newydd a chynhwysol
- sero net a datgarboneiddio'r sector sgrin (mae croeso arbennig i brosiectau sy'n ymateb i ganfyddiadau Cynllun Trawsnewid Screen New Deal ar gyfer Cymru)
- adrodd straeon drwy dechnolegau ymgolli Realiti Estynedig (XR), gan gynnwys Realiti Rhithwir (VR), Realiti Cynyddol (AR) a Realiti Cymysg (MR)
- creu cynnwys gemau fideo a'u cynhyrchu, gan gynnwys cydgyfeirio â chyfryngau eraill
- Deallusrwydd Artiffisial (AI) a thechnolegau eraill fel offer ar gyfer cynhyrchu'r cyfryngau
- creu lleoedd, gan gynnwys twristiaeth ddiwylliannol a'r cyfryngau
- cynhyrchu dwyieithog ac amlieithog
- newyddion a gwybodaeth gyhoeddus
- cynhyrchu cerddoriaeth, llais a sain, gan gynnwys perfformio a dosbarthu

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr. Os gallwch ddangos bod eich cynnig yn cyd-fynd â chwmpas y gystadleuaeth hon, gallwch ganolbwyntio ar themâu eraill.

## Categorïau ymchwil

Byddwn yn ariannu prosiectau ymchwil diwydiannol a phrosiectau datblygu arbrofol, fel y'u diffinnir yn y canllawiau ar gategorïau ymchwil.

## Prosiectau na fyddwn yn eu hariannu

Ni fyddwn yn ariannu prosiectau:

- sydd ddim yn bodloni cwmpas y gystadleuaeth na'r meini prawf cymhwysedd
- sy'n creu cynnwys generig, er enghraifft, datblygu ffilmiau byr, ffilmiau nodwedd a chynlluniau peilot teledu safonol
- sydd ar gyfer datblygu busnes cyffredinol

- sy’n gofyn am arian sylweddol ar gyfer partneriaid neu isgontractwyr sydd ddim yn dod o’r DU

Ni fyddwn yn ariannu gweithgareddau masnacheiddio fel marchnata a gwerthu.

Ni allwn ariannu prosiectau sydd:

- yn dibynnu ar berfformiad allforio, er enghraifft rhoi cymhorthdal i bobydd ar yr amod ei fod yn allforio swm penodol o fara i wlad arall
- yn dibynnu ar y defnydd o fewnbynnau domestig, er enghraifft rhoi cymhorthdal i bobydd ar yr amod ei fod yn defnyddio 50% o flawd y DU yn ei gynnyrch

## Dyddiadau

- **7 Hydref 2024:** Y gystadleuaeth yn agor
- **17 Hydref 2024:** Digwyddiad briffio ar-lein: cofrestrwch i gymryd rhan. Bydd sleidiau briffio ar gael i'w lawrlwytho o wybodaeth ategol ar ôl y digwyddiad.
- **4 Rhagfyr 2024, 11am:** Y gystadleuaeth yn dod i ben
- **27 Ionawr 2025:** Hysbysu ymgeiswyr

## Sut mae gwneud cais

### Cyn i chi ddechrau arni

Cyn cychwyn, mae'n rhaid i chi ddarllen y canllawiau ar gyfer gwneud cais am gystadleuaeth ar y Gwasanaeth Ariannu Arloesedd.

Cyn cyflwyno, cyfrifoldeb y prif ymgeisydd yw sicrhau:

- bod yr holl wybodaeth a ddarperir yn y cais yn gywir
- bod eich cynnig yn bodloni’r meini prawf ar gyfer cymhwysedd a chwmpas
- bod marc yn dangos bod pob adran o’r cais wedi'i gwblhau
- os yw’n gais ar y cyd, bod yr holl bartneriaid wedi cwblhau’r holl adrannau penodol ac wedi derbyn y telerau ac amodau

Gallwch ailagor eich cais ar ôl iddo gael ei gyflwyno, hyd at ddyddiad cau'r gystadleuaeth. Rhaid i chi ailgyflwyno'r cais cyn dyddiad cau'r gystadleuaeth.

## Beth rydym yn gofyn i chi ei wneud

Mae'r cais wedi'i rannu yn dair adran:

1. Manylion y prosiect.
2. Cwestiynau am y cais.
3. Cyllid.

## Hygyrchedd a Chynhwysiant

Rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir ac rydym wedi ymrwymo i wneud ein proses ymgeisio yn hwylus i bawb. Mae hyn yn cynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl sydd ag anabledd neu gyflwr hirdymor ac sy'n wynebu rhwystrau sy'n berthnasol i ni.

Gallwch gysylltu â ni unrhyw bryd i ofyn am arweiniad.

Rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â ni o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn dyddiad cau'r gystadleuaeth hon er mwyn i ni allu darparu'r cymorth mwyaf addas. Efallai mai dim ond ychydig o gefnogaeth y gallwn ei chynnig os byddwch yn cysylltu â ni'n agos at ddyddiad cau'r gystadleuaeth.
Gallwch gysylltu ag Innovate UK dros e-bost neu drwy ffonio 0300 321 4357. Mae ein llinellau ffôn ar agor rhwng 9am a 12pm a rhwng 2pm a 5pm yn y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc).

## 1. Manylion y prosiect

Mae'r adran hon yn rhoi cefndir eich cais ac nid yw'n cael ei sgorio.

## Tîm y cais

Penderfynwch pa sefydliadau fydd yn gweithio gyda chi ar eich prosiect a gwahoddwch bobl o'r sefydliadau hynny i helpu i lenwi'r cais.

## Manylion ymgeisio

Rhowch deitl, dyddiad dechrau a hyd eich prosiect.

## Categorïau ymchwil

Dewiswch y math o waith ymchwil y byddwch yn ei wneud.

## Crynodeb o'r prosiect

Disgrifiwch eich prosiect yn fyr gan nodi'n glir beth sy'n ei wneud yn arloesol. Byddwn yn defnyddio'r adran hon i neilltuo'r arbenigwyr priodol i asesu eich cais.

Gall eich ateb fod yn hyd at 400 gair o hyd.

## Disgrifiad cyhoeddus

Disgrifiwch eich prosiect yn fanwl ac mewn ffordd rydych chi'n hapus i'w weld yn cael ei gyhoeddi. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif. Os byddwn yn dyfarnu arian i'ch prosiect, byddwn yn cyhoeddi'r disgrifiad hwn. Gallai hyn ddigwydd cyn i chi ddechrau eich prosiect.
Gall eich ateb fod yn hyd at 400 gair o hyd.

## Cwmpas

Disgrifiwch sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â chwmpas y gystadleuaeth. Os nad yw eich prosiect o fewn y cwmpas, ni fydd yn cael ei anfon i'w asesu.

Byddwn yn dweud wrthych pam.

Gall eich ateb fod yn hyd at 400 gair o hyd.

## 2. Cwestiynau'r cais

Bydd yr aseswyr yn sgorio eich holl atebion ar wahân i gwestiynau 1, 2 a 3. Byddwch yn cael adborth ar gyfer pob cwestiwn a sgoriwyd. Cewch yma ragor o wybodaeth ynghylch sut bydd ein haseswyr yn asesu a sut byddwn yn dewis ceisiadau i'w hariannu.

Rhaid i chi ateb pob cwestiwn. Gall eich ateb i bob cwestiwn fod yn hyd at 400 gair o hyd. Peidiwch â chynnwys unrhyw gyfeiriadau gwefan (URLs) yn eich atebion.

## Cwestiwn 1. Lleoliad yr ymgeisydd (ddim yn cael ei sgorio)

Rhaid i chi nodi enw a chyfeiriad cofrestredig llawn eich sefydliad ac unrhyw bartneriaid neu isgontractwyr sy'n gweithio ar eich prosiect.
Rydym yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn deall lleoliad daearyddol pob ymgeisydd.

media cymru

### Cwestiwn 2. Profion ar anifeiliaid (ddim yn cael ei sgorio)

A fydd eich prosiect yn cynnwys unrhyw dreialon sy'n cynnwys anifeiliaid neu brofion ar anifeiliaid?

Rhaid i chi ddewis un opsiwn:

- Bydd
- Na fydd

O ran lles anifeiliaid, dim ond prosiectau arloesi a gynhelir i'r safonau uchaf y byddwn yn eu cefnogi.

Mae rhagor o wybodaeth am gynigion sy'n ymwneud â phrofion ar anifeiliaid ar gael yng Nghanolfan Ymchwil Da UKRI a chanllawiau lles anifeiliaid NC3R.

### Cwestiwn 3. Trwyddedau (ddim yn cael ei sgorio)

A fydd gennych chi'r trwyddedau cywir i gyflawni eich prosiect?

Ni allwn ariannu prosiectau os nad oes ganddynt drwyddedau cywir erbyn dyddiad cychwyn y prosiect.

Rhaid i chi ddewis un opsiwn:

- Bydd
- Na fydd
- Yn y broses o wneud cais
- Amherthnasol

### Cwestiwn 4. Angen neu her

Beth yw'r angen busnes, yr her economaidd, gymdeithasol, amgylcheddol neu dechnolegol, neu'r cyfle yn y farchnad sydd wrth wraidd y gwaith arloesi?

Eglurwch:

- beth yw prif gymhelliant y prosiect
- beth yw angen y busnes, yr her dechnolegol neu'r cyfle yn y farchnad
- a ydych wedi nodi unrhyw waith arloesi tebyg a beth yw ei gyfyngiadau presennol, gan gynnwys y rhai sy'n agos at y farchnad neu'n cael eu datblygu

- unrhyw waith rydych chi eisoes wedi'i wneud i ymateb i'r angen hwn, er enghraifft, a yw'r prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu presennol neu ddatblygu un newydd
- yr heriau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol neu wleidyddol ehangach sy'n cael dylanwad wrth greu'r cyfle, fel rheoliadau sy'n dod i mewn

## Cwestiwn 5. Dull gweithredu ac arloesi

Pa ddulliau fyddwch chi'n eu defnyddio a ble fydd ffocws yr arloesi?

Eglurwch:

- sut y byddwch yn ymateb i'r angen, yr her neu'r cyfle a nodwyd
- sut y byddwch yn gwella unrhyw waith arloesi tebyg a nodwyd gennych
- a fydd yr arloesedd yn canolbwyntio ar dechnolegau presennol mewn meysydd newydd, datblygu technolegau newydd ar gyfer ardaloedd presennol, neu ddull cwbl darfol
- y rhyddid sydd gennych i weithredu
- sut mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â'ch cynnyrch, llinellau gwasanaeth neu gynigion presennol
- sut y bydd yn eich gwneud yn fwy cystadleuol
- natur yr allbynnau rydych yn eu disgwyl o'r prosiect, er enghraifft adroddiadau, arddangosiadau, gwybodaeth, proses newydd, dyluniad gwasanaeth neu gynnyrch, a sut y bydd y rhain yn eich helpu i dargedu'r angen, yr her neu'r cyfle a nodwyd

Gallwch gyflwyno un atodiad i gefnogi eich ateb. Gall gynnwys diagramau a siartiau. Rhaid iddo fod yn PDF heb fod yn fwy na 10MB. Gall fod yn hyd at ddwy dudalen A4 ond rhaid iddo fod mewn ffont maint 11 pwynt.

## Cwestiwn 6. Tîm ac adnoddau

Pwy sydd yn nhîm y prosiect a beth yw eu rôl?

Eglurwch:

- rôl, sgiliau a phrofiad holl aelodau tîm y prosiect sy'n berthnasol i'r dull y byddwch yn ei ddefnyddio
- yr adnoddau, yr offer a'r cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer y prosiect a sut y byddwch yn cael gafael arnynt

- manylion unrhyw bartïon allanol hanfodol, gan gynnwys isgontractwyr, y bydd angen i chi weithio gyda nhw i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus
- os yw eich prosiect yn gydweithredol, y berthynas bresennol rhwng partneriaid y prosiect a sut bydd y rhain yn newid o ganlyniad i'r prosiect
- unrhyw swyddogaethau y bydd angen i chi eu recriwtio ar eu cyfer

Gallwch gyflwyno un atodiad, gyda chrynodeb byr o'r brif bobl sy'n gweithio ar y prosiect i gefnogi eich ateb. Rhaid iddo fod yn PDF heb fod yn fwy na 10MB. Gall fod yn hyd at ddwy dudalen A4 ond rhaid iddo fod mewn ffont maint 11 pwynt.

### Cwestiwn 7. Ymwybyddiaeth o'r farchnad

Sut mae'r farchnad neu'r marchnadoedd rydych chi'n eu targedu yn edrych?

Disgrifiwch:

- y marchnadoedd targed ar gyfer canlyniadau'r prosiect ac unrhyw farchnadoedd posibl eraill – domestig, rhyngwladol neu'r ddau
- maint y marchnadoedd targed ar gyfer canlyniadau'r prosiect, gyda nodiadau cyfeirio lle bo rhai ar gael i ategu hyn
- strwythur a deinameg y marchnadoedd targed, gan gynnwys sut mae cwsmeriaid wedi'u segmentu, ynghyd â chyfraddau twf a ragwelir o fewn amserlenni clir
- prif gadwyni cyflenwi neu gadwyni gwerth a modelau busnes y marchnadoedd targed, ac unrhyw rwystrau sy'n atal rhag ymuno
- sefyllfa bresennol y DU o ran targedu'r marchnadoedd hyn
- maint a phrif nodweddion unrhyw farchnadoedd eraill sydd ddim wedi'u rhestru'n barod

Os yw eich prosiect yn arloesol iawn, a'r farchnad heb ei harchwilio o bosibl, disgrifiwch neu esboniwch:

- beth allai maint y farchnad fod
- sut bydd eich prosiect yn ceisio archwilio potensial y farchnad

### Cwestiwn 8. Canlyniadau a llwybr i'r farchnad

Sut ydych chi'n mynd i dyfu eich busnes a chynyddu cynhyrchiant tymor hir o ganlyniad i'r prosiect?

Eglurwch:

- eich sefyllfa bresennol yn y marchnadoedd a'r cadwyni cyflenwi neu werth a amlinellwyd, ac a fyddwch yn ymestyn neu'n sefydlu eich sefyllfa yn y farchnad
- eich cwsmeriaid neu'ch defnyddwyr targed, a'r gwerth iddynt, er enghraifft, pam y byddent yn defnyddio/prynu eich cynnyrch chi
- eich llwybr i'r farchnad
- sut rydych chi'n mynd i elwa o'r arloesedd, gan gynnwys mwy o refeniw neu leihau costau
- sut bydd yr arloesedd yn effeithio ar eich cynhyrchiant a'ch twf, yn y tymor byr a'r tymor hir
- sut byddwch yn diogelu ac yn manteisio ar allbynnau'r prosiect, er enghraifft drwy wybodaeth ymarferol, patent, dyluniadau neu newidiadau i'ch model busnes
- eich strategaeth ar gyfer targedu'r marchnadoedd eraill rydych wedi'u nodi yn ystod y prosiect neu ar ôl y prosiect

Os bydd eich prosiect yn cynnwys unrhyw weithgaredd gan sefydliad ymchwil, disgrifiwch:

- eich cynlluniau i ledaenu allbynnau ymchwil y prosiect dros gyfnod rhesymol
- sut rydych yn disgwyl defnyddio'r canlyniadau a gynhyrchir yn sgil y prosiect mewn gweithgareddau ymchwil pellach

## Cwestiwn 9. Effeithiau ehangach

Pa effaith y gallai'r prosiect hwn ei chael y tu allan i dîm y prosiect?

Rhowch ddisgrifiad, a lle bo'n bosibl, rhowch fesur ar gyfer manteision economaidd y prosiect (er enghraifft, cynnydd mewn cynhyrchiant ac amnewid mewnforion) ar gyfer:

- partïon allanol
- cwsmeriaid
- eraill yn y gadwyn gyflenwi
- y diwydiant ehangach
- economi'r DU

Disgrifiwch, a lle bo’n bosibl, mesurwch:

- unrhyw effaith ddisgwyliedig ar flaenoriaethau’r llywodraeth
- unrhyw effeithiau amgylcheddol disgwyliedig – boed gadarnhaol neu negyddol
- unrhyw effeithiau rhanbarthol a ddisgwylir yn sgil y prosiect

Disgrifiwch unrhyw effeithiau cymdeithasol disgwyliedig, boed gadarnhaol neu negyddol, ar, er enghraifft:

- ansawdd bywyd
- cynhwysiant neu allgau cymdeithasol
- swyddi, er enghraifft, eu diogelu, eu creu, eu newid neu eu dadleoli
- addysg
- grymuso'r cyhoedd
- iechyd a diogelwch
- rheoliadau
- amrywiaeth

### Cwestiwn 10. Rheoli Prosiectau

Sut byddwch chi’n rheoli eich prosiect yn effeithiol?

Eglurwch:

- beth yw prif becynnau gwaith eich prosiect, gan nodi'r partner arweiniol a neilltuwyd i bob un a chyfanswm cost pob un
- eich dull o reoli’r prosiect, gan nodi unrhyw offer a mecanweithiau pwysig y byddwch yn eu defnyddio i sicrhau canlyniadau llwyddiannus ac arloesol
- y llinellau adrodd ar gyfer rheoli
- beth yw cynllun eich prosiect yn ddigon manwl i nodi unrhyw gysylltiadau neu ddibyniaethau rhwng pecynnau gwaith neu gerrig milltir

Rhaid i chi gyflwyno cynllun prosiect neu siart Gantt fel atodiad i gefnogi eich ateb. Rhaid iddo fod yn PDF heb fod yn fwy na 10MB. Gall fod yn hyd at ddwy dudalen A4 ond rhaid iddo fod mewn ffont maint 11 pwynt.

### Cwestiwn 11. Risgiau

Beth yw prif risgiau’r prosiect hwn?

media cymru

Eglurwch:

- beth yw'r prif risgiau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys y risgiau technegol, masnachol, rheolaethol ac amgylcheddol
- sut byddwch yn lliniaru'r risgiau hyn
- unrhyw fewnbynnau prosiect sy'n hanfodol ar gyfer cwblhau, fel adnoddau, arbenigedd a setiau data
- unrhyw allbwn sy'n debygol o fod yn destun gofynion rheoleiddiol, ardystiad, materion moesegol neu ofynion eraill, a sut y byddwch yn rheoli hyn

Rhaid i chi gyflwyno cofrestr risg fel atodiad i gefnogi eich ateb. Rhaid iddo fod yn PDF heb fod yn fwy na 10MB. Gall fod yn hyd at ddwy dudalen A4 ond rhaid iddo fod mewn ffont maint 11 pwynt.

### Cwestiwn 12. Gwerth ychwanegol

Sut bydd y cyllid cyhoeddus hwn yn eich helpu i gyflymu neu wella eich dull o ddatblygu eich prosiect tuag at fasnacheiddio? Pa effaith fyddai'r dyfarniad hwn yn ei chael ar y sefydliadau dan sylw?

Eglurwch:

- pa fanteision y byddai cyllid cyhoeddus yn eu cynnig i'ch prosiect, er enghraifft: apelio at fuddsoddwyr, mwy o bartneriaid, llai o risg neu lwybr cyflymach i'r farchnad
- effaith debygol canlyniadau'r prosiect ar y sefydliadau dan sylw
- pa lwybrau buddsoddi neu ddulliau cymorth eraill rydych chi eisoes wedi eu defnyddio a pham nad oeddent yn addas
- sut y bydd unrhyw fuddsoddiad neu gymorth presennol neu bosibl yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r arian grant
- sut byddai eich prosiect yn edrych heb arian cyhoeddus
- sut byddai'r prosiect hwn yn newid gweithgareddau ymchwil a datblygu'r holl sefydliadau dan sylw

### Cwestiwn 13. Costau a gwerth am arian

Faint fydd y prosiect yn ei gostio a sut mae'n cynrychioli gwerth am arian i'r tîm ac i'r trethdalwr?

O ran nodau eich prosiect, eglurwch y canlynol:

- cyfanswm costau eich prosiect
- y grant rydych chi'n gofyn amdano
- sut y bydd pob partner yn ariannu ei gyfraniadau i'ch prosiect
- sut mae'r prosiect hwn yn cynrychioli gwerth am arian i chi a'r trethdalwr
- sut mae'n cymharu â'r hyn y byddech yn gwario eich arian arno fel arall
- cydbwysedd costau a grant ar draws partneriaid y prosiect
- unrhyw gostau sy'n berthnasol i isgontractwyr a pham eu bod yn hanfodol i'ch prosiect

### 3. Cyllid

Rhaid i bob sefydliad yn eich prosiect gwblhau manylion ei gostau ei hun mewn perthynas â'r prosiect, ynghyd â manylion y sefydliad a manylion y cyllid yn y cais. Rhaid i sefydliadau academaidd lenwi a lanlwytho ffurflen Je-S.
I gael manylion llawn am y costau y gallwch eu hawlio, darllenwch ein canllawiau ar gostau prosiectau. Gallwch hefyd wylio ein fideo Cyllid Rhaglenni.

### Asesu

Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan dri asesydd annibynnol, yn seiliedig ar gynnwys eich cais a'u sgiliau/arbenigedd, fel sy'n berthnasol i'ch prosiect. Bydd pob sgôr a ddyfernir yn cyfrif tuag at gyfanswm y sgôr a ddefnyddir i wneud y penderfyniad am ariannu, oni bai eich bod yn cael eich hysbysu fel arall.
Mae rhagor o wybodaeth am ein proses asesu i'w gweld yn y Canllawiau Cyffredinol.

Bydd y cais y byddwch wedi'i gyflwyno yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf hyn:

Media Cymru – Canllawiau i aseswyr ar gyfer ymgeiswyr.pdf (yn agor mewn ffenestr newydd)

## Gwybodaeth Ategol

### Cefndir a rhagor o wybodaeth

## Media Cymru

Consortiwm Media Cymru yw un o'r buddsoddiadau mwyaf mewn arloesi yn y diwydiannau creadigol yn y DU. Drwy ymchwil, datblygu ac arloesi, nod Consortiwm Media Cymru yw galluogi ac ysgogi twf sector y cyfryngau yng Nghymru.

Mae Media Cymru yn gweithio i ddarparu amrywiaeth o brosiectau arloesi ar draws y rhaglen gan weithio gyda phartneriaid o fyd diwydiant a'r byd academaidd. Ewch i'n gwefan i weld sut y gallem gefnogi eich prosiect chi.

Nod Media Cymru yw defnyddio arloesedd fel sbardun allweddol ar gyfer twf economaidd gwyrdd a theg gyda'r nod o ddatblygu canolfan fyd-eang ar gyfer cynhyrchu ac arloesi yn y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

## Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys y 10 ardal awdurdod lleol sy'n gwasanaethu De-ddwyrain Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Blaenau Gwent
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerffili
- Caerdydd
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Casnewydd
- Rhondda Cynon Taf
- Torfaen
- Bro Morgannwg

Byddwn yn chwilio am brosiectau a fydd yn gallu sicrhau budd yn unrhyw un o'r ardaloedd hyn.

## Gwybodaeth am y Cynllun Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Mae'r dyfarniad hwn yn cael ei gynnig o dan y Cynllun Cymorthdaliadau Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn unol ag adran 10(4) o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

Rhaid i brosiectau a ariennir fodloni'r diffiniadau canlynol:

## Categori 2 – Ymchwil ddiwydiannol

Yr ymchwil neu'r ymchwiliad critigol arfaethedig sydd â'r nod o gael gwybodaeth a sgiliau newydd i ddatblygu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd. Gall hefyd fod ar gyfer prosiectau sydd am sicrhau gwelliannau sylweddol mewn cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau presennol.

Byddai hyn yn cynnwys cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau digidol, mewn unrhyw dechnoleg, diwydiant neu sector, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddiwydiannau a thechnolegau digidol, fel uwch-gyfrifiadura, technolegau cwantwm, technolegau cadwyn flociau, deallusrwydd artiffisial, seiberddiogelwch, technolegau cwmwl a data mawr.

Mae ymchwil ddiwydiannol yn cynnwys creu cydrannau o systemau cymhleth. Gall gynnwys adeiladu prototeipiau mewn amgylchedd labordy neu mewn amgylchedd gyda rhyngwynebau efelychiadol i systemau presennol yn ogystal â llinellau peilot. Lle bo angen, byddai hyn ar gyfer yr ymchwil ddiwydiannol ac yn benodol ar gyfer dilysu technoleg generig.

## Categori 2 – Datblygu arbrofol

Mae hyn yn golygu caffael, cyfuno, siapio a defnyddio gwybodaeth a sgiliau gwyddonol, technolegol a busnes presennol, a gwybodaeth a sgiliau perthnasol eraill gyda'r nod o ddatblygu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well.

Mae hyn yn cynnwys:

- cynnyrch digidol
- prosesau neu wasanaethau mewn unrhyw dechnoleg
- diwydiant neu sector, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddiwydiannau a thechnolegau digidol, er enghraifft, uwch-gyfrifiadura
- technolegau cwantwm
- technolegau cadwyn flociau
- deallusrwydd artiffisial
- seiberddiogelwch
- data mawr
- technolegau cwmwl neu flaen

Gall hyn hefyd gwmpasu gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at ddiffinio, cynllunio a dogfennu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd yn gysyniadol.

Gall datblygiad arbrofol gynnwys prototeipio, arddangos, treialu, profi a dilysu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well mewn amgylcheddau sy'n cynrychioli amodau gweithredu bywyd go iawn. Byddai hyn yn golygu mai'r prif amcan fyddai gwneud rhagor o welliannau technegol i gynnyrch, prosesau neu wasanaethau sydd ddim wedi'u pennu'n sylweddol.

Gall hyn gynnwys datblygu prototeip neu gynllun peilot y gellir ei ddefnyddio'n fasnachol sy'n angenrheidiol ar gyfer y cynnyrch masnachol terfynol ac sy'n rhy ddrud i'w gynhyrchu er mwyn iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion arddangos a dilysu yn unig.

Nid yw datblygiad arbrofol yn cynnwys newidiadau rheolaidd na chyfnodol a wneir i gynhyrchion presennol, llinellau cynhyrchu, prosesau gweithgynhyrchu, gwasanaethau na gweithrediadau eraill sydd ar y gweill, hyd yn oed os yw'r newidiadau hynny'n cynrychioli gwelliannau.

## Sleidiau briffio

Bydd sleidiau briffio ar gael i'w lawrlwytho yma ar ôl y digwyddiad briffio.

**Os bydd eich cais yn llwyddiannus**

Os byddwch yn llwyddiannus gyda'r cais hwn, gofynnir i chi sefydlu eich prosiect.

Byddwch yn cael gwybod dros e-bost ar y dyddiad a gyhoeddwyd ar gyfer y gystadleuaeth hon. Gellir anfon hysbysiadau unrhyw bryd hyd at 5pm.

Rhaid i chi ddilyn y ddolen unigryw yn eich hysbysiad e-bost. Bydd hon yn mynd â chi i'ch porth Sefydlu Gwasanaeth Ariannu Arloesedd (IFS), lle byddwn yn casglu'r wybodaeth i sefydlu eich prosiect.

Gwyliwch ein fideo ar y camau i'w cymryd cyn i brosiect ddechrau.

Yn ystod y broses o sefydlu'r prosiect, byddwch yn cael swyddog cyflawni a fydd yn eich arwain drwy'r dasg o sefydlu'r prosiect.

media cymru

Yn dilyn eich hysbysiad e-bost, bydd angen i chi ddarparu'r canlynol o fewn 5 diwrnod (gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc):

- enw a manylion cyswllt rheolwr eich prosiect ac arweinydd cyllid y prosiect
- cyswllt cyllid ar gyfer pob partner
- copi o'ch manylion banc

Bydd angen i chi ddarparu'r canlynol o fewn 30 diwrnod (gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc):

- cytundeb cydweithio, os yw'r prosiect yn gydweithredol
- cynllun ecsbloetiaeth

Bydd gennych 90 diwrnod (gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc) i sefydlu eich prosiect. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd gofyn i chi hefyd gyflwyno:

- lleoliad y prosiect
- unrhyw atebion i ymholiadau ariannol y gofynnwyd amdanynt
- unrhyw ddogfennau y gofynnwyd amdanynt i gefnogi eich prosiect, fel proffil gwariant

Mae'n bosibl y bydd eich cynnig am gyllid yn cael ei dynnu'n ôl os na fydd y gwaith o sefydlu'r prosiect wedi'i gwblhau o fewn yr amserlen hon neu o fewn amserlen arall, yn unol â chyngor Innovate UK.

Er mwyn i ni brosesu eich hawliadau, rhaid i chi wneud yn siŵr bod gennych chi gyfrif banc busnes dilys yn y DU. Gall gymryd sawl wythnos i greu cyfrif newydd os oes angen. Rydym yn argymell dechrau'r broses hon cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi unrhyw oedi o ran dyddiad dechrau eich prosiect.

Mae'n ofynnol bod y cyfrif banc y telir y grant iddo:

- yn gyfrif busnes yn yr un enw â'r sefydliad a restrwyd yn yr IFS
- yn dod o fanc yn y DU a reoleiddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA)
- gyda chyfleuster clirio sieciau a chredyd

Mae cyfrifon ar-lein yn gymwys cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf uchod.

Bydd Innovate UK yn derbyn y rhan fwyaf o gymdeithasau bancio ar wahân i:

- Viva Wallet
- Intesa Sanpaolo
- Equals Money UK Limited
- Modulr FS Limited

Os ydych chi'n amau na fydd eich cyfrif banc yn bodloni meini prawf ariannu Innovate UK, gallwch ddefnyddio'r gwiriwr cod didoli. Os byddwch yn rhoi'r cod didoli i mewn ac yn gweld tic wrth ymyl y geiriau sy'n dweud eich bod yn gallu anfon taliadau Credyd Uniongyrchol BACS i'r cod didoli hwn, bydd hyn yn dangos i chi bod eich cyfrif banc yn dderbyniol.

### Gwiriadau cyllid

Byddwn yn cynnal gwiriadau i wneud yn siŵr eich bod yn gwmni sefydledig sy'n gallu cael gafael ar yr arian sydd ei angen i gwblhau'r prosiect.

Rhaid i chi edrych ar eich porth IFS yn rheolaidd ac ymateb i unrhyw geisiadau rydym wedi'u hanfon am wybodaeth ychwanegol er mwyn osgoi unrhyw oedi. Os na fyddwch yn cwblhau'r broses o sefydlu eich prosiect, gall hyn arwain at dynnu eich cynnig grant yn ôl.

### Eich llythyr cynnig grant

Ar ôl i chi orffen sefydlu eich prosiect yn llwyddiannus, byddwn yn rhoi llythyr cynnig grant i chi.

Bydd hwn ar gael drwy eich safle porth IFS. Bydd angen i chi lofnodi a lanlwytho hwn er mwyn i ni ei gymeradwyo. Ar ôl ei gymeradwyo, byddwn yn anfon e-bost atoch gyda chaniatâd i ddechrau eich prosiect ar y dyddiad dechrau sydd wedi'i gadarnhau.

Ni ddylech ddechrau eich prosiect cyn y dyddiad a nodir ar eich e-bost a'ch llythyr cynnig grant. Ni ellir hawlio unrhyw gostau sy'n codi cyn y dyddiad dechrau y cytunwyd arno fel rhan o'ch grant.

Os caiff eich llythyr cynnig grant ei gymeradwyo ar/cyn y pymthegfed o'r mis, bydd yn cael ei ddyddio o'r cyntaf o'r mis hwnnw ymlaen. Os caiff eich llythyr cynnig grant ei gymeradwyo ar ôl y pymthegfed, bydd yn cael ei ddyddio o'r cyntaf o'r mis nesaf.

## Os na fydd eich cais yn llwyddiannus

Os nad yw'ch cais yn llwyddiannus y tro hwn, gallwch weld adborth gan yr aseswyr. Bydd hwn ar gael i chi ar eich porth IFS yn dilyn hysbysiad. Weithiau bydd eich cais wedi sgorio'n dda, a byddwch yn cael sylwadau cadarnhaol gan yr aseswyr. Efallai y byddwch yn aflwyddiannus gan nad oedd eich sgôr cyfartalog yn uwch na'r trothwy ariannu, neu efallai nad yw eich prosiect wedi cael ei ddewis o dan y dull seiliedig ar bortffolio os yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gystadleuaeth hon.

## Dod o hyd i bartner ar gyfer prosiect

Os ydych chi eisiau help i ddod o hyd i bartner ar gyfer eich prosiect, cysylltwch ag Innovate UK Business Connect.

## Cymorth i Fusnesau Bach a Chanolig gan Innovate UK Business Growth

Os byddwch yn cael dyfarniad, byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â gweithio gydag arbenigwr arloesi a thwf yn Innovate UK Business Growth. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhan o'n cynnig wedi'i ariannu i chi.

Bydd yr arbenigwyr hyn yn canolbwyntio ar dyfu busnesau arloesol a sicrhau bod prosiectau'n cyfrannu at eu twf. Gan weithio ar sail un i un, gallant eich helpu i ddod o hyd i'ch strategaeth orau a harneisio adnoddau o'r radd flaenaf i dyfu a chyflawni ar raddfa fawr.

Rydym yn eich annog i gysylltu ag Innovate UK Business Growth, a ddarperir gan arbenigwr gwybodus a gwrthrychol yn eich ardal chi.

## Diogelu eich arloesedd

Mae ymgyrch Arloesi Diogel wedi cael ei datblygu i helpu sylfaenwyr ac arweinwyr busnesau newydd arloesol i ddiogelu eu technoleg, eu mantais gystadleuol a'u henw da.

Cafodd hyn ei ddatblygu gan Awdurdod Diogelwch Amddiffynnol Cenedlaethol y DU (NPSA) a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).

## Rhannu data

Mae'r gystadleuaeth hon yn cael ei rhedeg ar y cyd gan Innovate UK a Media Cymru (pob un yn 'asiantaeth').

Gall yr asiantaethau rannu â'i gilydd unrhyw wybodaeth berthnasol ynghylch eich cais a gyflwynir ac a gynhyrchir yn ystod y broses ymgeisio, er mwyn ei storio a'i phrosesu ac at ddefnydd unigol.

Mae hyn yn golygu y gellir trosglwyddo unrhyw wybodaeth a roddir i Innovate UK neu a gynhyrchir gan Innovate UK mewn perthynas â'ch cais i Media Cymru ac i'r gwrthwyneb. Byddai hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i:

- y wybodaeth ar y cais, gan gynnwys manylion personol pob ymgeisydd
- manylion y sgôr ac adborth ar y cais
- gwybodaeth a geir wrth reoli a gweinyddu'r grant, fel adroddiadau Swyddogion Monitro ac Adroddiadau Cyfrifwyr Annibynnol

Mae Innovate UK a Media Cymru yn uniongyrchol atebol i chi am gadw a phrosesu eich gwybodaeth, gan gynnwys unrhyw ddata personol a gwybodaeth gyfrinachol. Cedwir data yn unol â'u polisïau eu hunain. Yn unol â hynny, bydd Innovate UK, Innovate UK Business Connect a Media Cymru yn rheolwyr data ar gyfer data personol a gyflwynir yn ystod y cais.

Polisi Preifatrwydd Innovate UK
Polisi Preifatrwydd Innovate UK Business Connect
Polisi Preifatrwydd Media Cymru

Mae Innovate UK yn cydymffurfio â gofynion GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Mae wedi ymrwymo i gynnal deddfwriaeth diogelu data, a diogelu eich gwybodaeth yn unol ag egwyddorion diogelu data.

Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd ganllaw defnyddiol i sefydliadau, sy'n amlinellu'r egwyddorion diogelu data.

## Cysylltu â ni

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am sut i wneud cais neu os ydych am gyflwyno eich cais yn Gymraeg, anfonwch e-bost at support@iuk.ukri.org neu ffoniwch 0300 321 4357.

Mae ein llinellau ffôn ar agor rhwng 9am a 12pm a rhwng 2pm a 5pm yn y DU, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc).

Ni fydd Innovate UK nac unrhyw un o'n partneriaid yn goddef iaith sarhaus mewn unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig neu lafar, ceisiadau, cyfryngau cymdeithasol nac unrhyw ffurf arall a allai effeithio ar staff.